CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 17 MEDI 2013

Presennol
Ei deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
W L Davies, W T Owen, I C Thomas, A W Bohana, A Hopcyn, E Lovgreen, D Jones, T Thomas, B Owen

1.Ymddiheuriadau
Cyng E R Hughes, Cyng H W Roberts , Cyng K Williams (i gyd gwyliau) Cyng H Edwards (sal) Cyng G Thomas (sal)

2.Cyhoeddiadau'r Maer

9 Medi – agoriad swyddogol Cwmni Da
17 Medi – llyfrau llafar Cymru

3.Datgan Buddiant Personol

B Owen – eitem 14 llythyr Dafydd Iwan
W T Owen – Trwyddedu a chynllunio eitem 6
I C Thomas – trwyddedu 6ii

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Llythyr er gwybodaeth am system unffordd Maes Cadnant

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 3 Medi 2013
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu

6/1 Cynllunio *- dim cais wedi dderbyn*

6/2 Trwyddedu

Penderfynwyd

Deddf Trwyddedu 2003
Licensing Act 2003

Cais i amrywio Trwydded Eiddo/ Application for a Variation of Premises Licence	**Cytuno**

Tafarn y Porth, 5 – 9 Eastgate Street, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9.Cyfarfod Cyngor mis Tachwedd

Penderfynwyd

Symud ymlaen i Hydref 29

(Cyrhaeddodd Cyng M Thomas yn ystod yr eitem yma 6.10)

10. Gefeillio

Cyfarfod 8 Hydref am 7 y.h. yn yr Institiwt

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. Cyfarfod Blynyddol Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd – Medi 25 9.30 a.m. Blaenau Ffestiniog

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. Swyddfa Bost Lon y Bryn – symud lleoliad

Penderfynwyd

Cytuno i'r lleoliad newydd a nodi ein bod ni yn falch gweld y cyfleusterau yn aros

13. Cyngor Gwynedd

Cynllun arfaethedig i gyflwyno cyfyngiad parcio - Ffordd fynediad i Ysgol y Gelli a Ysgol Pendalar

Penderfynwyd

Cefnogi

14. E-bost Dafydd Iwan

Pâr: Deffroad Cymru

Penderfynwyd

Caniatáu gyda'r amodau arferol bod angen nodi mai yma yn yr Institiwt mae'r llun a dim ond gyda caniatâd y Cyngor ellir ei ddefnyddio. Gan fod y llythyr yn sôn am daliad , gofyn am gyfraniad i Gronfa Nadolig Y Maer , a chopi o'r CD i chwarae yma

15. Cyfarfod Blynyddol CAB

3 Hydref am 2 p.m. Galeri

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

16.CTC

Nodiadau o gyfarfod mis Medi

Penderfynwyd

Diolchgar am yr adroddiad a chytuno i rhyddhau'r plac

17. Adroddiad o Gyfarfod Bartneriaeth Caernarfon Penderfynwyd

Nodwyd siom bod y bartneriaeth ddim yn datblygu fel y gobeithir a gofynnwyd i'r Maer, dirprwy a'r clerc ynghyd a Cyng. A Hopcyn a Cyng. I C Thomas ddod at ei gilydd i drafod ffordd ymlaen

18. Cwestiynau

Sut mae eisiau sylwadau am ddatblygu'r wefan gan y sawl sydd ddim ar banel cyllid ?
Ar e-bost i'r clerc os gwelwch yn dda

19.Maes Cadnant

Gwybodaeth am gyfarfod cyhoeddus 26 Medi

Gorffennodd y cyfarfod am 6.32

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....